# Cawl llysiau

**Cynhwysion**

1 winwnsyn – wedi torri
6 taten canolig – wedi pilio a thorri'n ddarnau
3 moron – wedi pilio a thorri
2 panas – wedi pilio a thorri
2 cenyn – wedi golchi a thorri
1 tisw fach o bersli ffres (neu sych)
750ml stoc llysiau
Halen a phupur

---

## Dull

**Byddwch yn ofalus a pharatowch gydag oedolyn.**

1. Piliwch a thorrwch y llysiau i gyd a'i gosod mewn powleni ar wahân.



2. Cymysgwch a pharatowch y stoc a'i rhoi mewn sosban mawr.



3. Rhowch y tatws, moron a'r panas yn y sosban gyda'r stoc. Berwch yn hamddenol nes bod y llysiau wedi coginio. Arllwyswch mwy o stôc llysiau i'r sosban os oes angen. Cymysgwch ychydig bach o halen a phupur i mewn i'r cawl.



4.Nawr rhowch y cenyn yn y sosban a wedyn y persli. Os ydych chi eisiau tewhau'r cawl gallwch greu past o flawd a dŵr a'i gymysgu gyda phopeth yn y sosban.

Mwynhewch eich cawl gyda darn o fara ffres!

